Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ein polisi ar gyfer ymdrin ag ymddygiad annerbyniol gan y rhai sydd mewn cysylltiad â ni



## Diben y polisi hwn

1 O bryd i'w gilydd mae ymddygiad gohebwyr, achwynwyr neu eraill sydd mewn cysylltiad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru[1] yn achosi amhariad, poendod neu ofid heb gyfiawnhad i'n staff neu gontractwyr[2], a gall arwain at faich sylweddol direswm yn cael ei roi ar adnoddau cyhoeddus.

2 Mae'r polisi hwn yn nodi gweithredoedd ac ymddygiadau gohebwyr yr ydym yn eu hystyried yn annerbyniol a sut y gallwn ymateb i weithredoedd ac ymddygiadau o'r fath. Mae hyn yn cefnogi ein dyletswydd gyfreithiol fel cyflogwr i sicrhau nad yw ein staff yn dioddef ymddygiad a allai effeithio nid yn unig ar eu perfformiad, ond hefyd ar eu hiechyd a'u llesiant.

3 Mae ein polisïau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth a chwynion wedi'u nodi yn y taflenni canlynol:

- Ysgrifennu at Archwilio Cymru: Gwybodaeth i ohebwyr
- Gwneud cwyn am waith Archwilio Cymru
- Ydych chi'n poeni am gamwedd yn eich gweithle?

## Pa ymddygiadau sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol?

4 Gall ymddygiad annerbyniol gynnwys galwadau afresymol ar ein staff ac adnoddau eraill, dyfalbarhad afresymol, neu ymddygiad ymosodol tuag at ein staff.

1 Cyfeirir atynt fel 'gohebwyr' yng ngweddill y ddogfen er mwyn symlrwydd
2 Cyfeirir atynt fel 'staff' yng ngweddill y ddogfen er mwyn symlrwydd

## Galwadau afresymol

5 Efallai y byddwn o'r farn bod rhywun yn gwneud galwad afresymol os yw maint yr wybodaeth y mae'n ei geisio, natur a graddfa'r gwasanaeth y mae yn ei ddisgwyl neu faint o weithiau y mae'n cysylltu â ni, yn ormodol. Gall yr hyn sy'n gyfystyr â galwad afresymol ddibynnu ar yr amgylchiadau, gan gynnwys difrifoldeb y materion a godwyd gan y gohebydd.

6 Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- mynnu ymatebion o fewn amserlen afresymol;
- mynnu gweld neu siarad ag aelod penodol o staff (neu'r Archwilydd Cyffredinol);
- gofyn am gamau gweithredu ar faterion nad ydynt yn berthnasol i'n swyddogaethau, yn enwedig pan fyddwn wedi egluro ein swyddogaethau;
- ein gorfodi ni i ddioddef cyfathrebu ailadroddus neu fel arall yn doreithiog heb fod angen;
- ailadrodd ceisiadau am weithredu ar faterion yr ydym eisoes wedi'u hystyried.

7 Gall galwadau fod yn annerbyniol os byddant yn dechrau cymryd cyfran anghymesur o'n hamser a'n hadnoddau o dan yr amgylchiadau.



## Dyfalbarhad afresymol

8 O bryd i'w gilydd, nid yw rhai gohebwyr yn derbyn, neu'n ymddangos nad ydynt yn derbyn, na allwn eu cynorthwyo yn y ffordd y maent yn dymuno. Yn yr un modd, mae rhai gohebwyr yn parhau i anghytuno â'n gweithredoedd neu ein penderfyniadau neu'n cysylltu â ni yn gyson am yr un mater.

9 Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- gwrthod yn barhaus derbyn penderfyniad a wnaed mewn cysylltiad â gohebiaeth;
- gwrthod yn barhaus derbyn esboniadau sy'n ymwneud â'r hyn y gallwn neu na allwn ei wneud;
- parhau i fynd ar drywydd gohebiaeth heb gyflwyno unrhyw wybodaeth newydd.

## Ymddygiad ymosodol neu ddifrïol

10 Mae ymddygiad ymosodol neu ddifrïol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, weithredoedd corfforol a llafar ymosodol. Mae'n cynnwys ymddygiad neu gyfathrebu − boed wyneb yn wyneb, dros y ffôn, llythyr, e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol − a allai beri i'n staff deimlo'n ofnus, dan fygythiad neu eu bod yn cael eu cam-drin.

11 Mae enghreifftiau'n cynnwys bygythiadau, trais corfforol, cam-drin geiriol personol, sylwadau ymfflamychol neu ddifrïol, honiadau di-sail ac anghwrteisi.

12 Mae ymddygiad ymosodol neu ddifrïol tuag at ein staff yn annerbyniol ac ni fydd yn cael ei oddef.



# Sut rydym yn ymdrin ag ymddygiad annerbyniol gan ohebwyr

13 Gall staff ddod â galwadau ffôn i ben os yw ymddygiad y galwr yn annerbyniol. Mae gan yr aelod o staff sy'n derbyn yr alwad yr hawl i wneud y penderfyniad hwn, dywedwch wrth y galwr bod yr ymddygiad yn annerbyniol a dod â'r alwad i ben os na fydd yr ymddygiad yn stopio.

14 Gall staff benderfynu peidio ag ymdrin â gohebiaeth (ar ba bynnag ffurf) sy'n dangos ymddygiad annerbyniol ar ran y gohebydd. Ar ôl derbyn gohebiaeth o'r fath, bydd y derbynnydd yn hysbysu'r tîm sy'n rheoli ein gohebiaeth. Byddwn yn ysgrifennu at y gohebydd yn ei hysbysu bod ei ddull o gyfathrebu yn annerbyniol ac yn gofyn iddo roi'r gorau i gyfathrebu fel hyn. Byddwn yn ei gwneud yn glir na fyddwn bellach yn gohebu â gohebydd os yw'n parhau i ymddwyn yn annerbyniol.

15 Yn ogystal, pan fo ymddygiad neu weithredoedd gohebydd yn annerbyniol, efallai y byddwn yn penderfynu:

- rhoi gwybod i'r gohebydd na fyddwn yn ymateb mwyach i alwadau ffôn neu ohebiaeth bellach ar fater penodol;
- mynnu bod cyswllt yn y dyfodol yn ysgrifenedig yn unig;
- cynghori'r gohebydd y bydd gohebiaeth yn y dyfodol yn cael ei darllen a'i ffeilio, ond dim ond os yw'r gohebydd yn darparu gwybodaeth newydd berthnasol sylweddol yn ein barn ni;
- cymryd camau gweithredu priodol eraill.

16 Mae bygythiadau, defnyddio trais corfforol, cam-drin geiriol neu aflonyddu ar ein staff i gyd yn debygol o arwain at ddod â'r holl gyswllt uniongyrchol â'r gohebydd i ben. Gall ymddygiad o'r fath hefyd fod yn drosedd a gellid hysbysu'r heddlu amdani. Os yw gohebydd o'r farn nad oes cyfiawnhad dros unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r polisi hwn, gallai godi'r mater gan ddefnyddio ein polisi cwynion.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.